

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref y Bala: Nos Iau 1af o Dachwedd 2012

892. Croeso ac Ymddiheuriadau: Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer Miss Shan Ranson. Yn bresennol – Shan Ranson, Dilwyn Jones, John Williams, Sharon Evans, Ivora Jones, Eifion Roberts, Edith Roberts. Derbynwyd ymddiheuriadau gan Dilys Evans, Islwyn Pritchard-Jones, Dorothea Evans, Alun Price, Eluned Jones, Cyng Sir Dilwyn Morgan ac yr Heddlu. Cyn y cyfarfod aeth nifer o'r cynghorwyr ar wahoddiad Noela Jones y Cyfarwyddwr Tai a Cymunedau, Cymdeithas Tai Clwyd i Awel y Coleg. Yn anffodus mae'r adeiladwyr wedi cael trafferthion ond yn gobeithio byddai'r adeilad yn cael eu basio i Cymdeithas Tai Clwyd wythnos nesaf er mwyn iddynt cael trefnu dyddiadau i'w tenantiaid cael goriadau.

893. Datgan Buddiant

Ni chymerodd Mrs Sharon Evans rhan yn y trafodaeth am gael cysgofa bws ar Heol Pensarn yn ystod y cyfarfod.

894. Materion Cynghorydd Sir

Derbynwyd ymddiheuriad gan Mr Morgan, mae o mewn cyfarfod arall, darllenwyd nodyn ganddo. Mae wedi cael sicrwydd caiff y gwaith llinellau eu orffen o fewn yr wythnos yn Heol Tegid, wedi cael cadarnhad bydd mwy o bresenoldeb wardeniaid traffic yn y dref yn ystod y dydd ac hefyd ystod y nos, mae wedi trefnu cael trwsio y wal sydd wedi disgyn maes parcio y Plase, hefyd i swyddog ddelio gyda'r carafanau a cherbydau ger mynedfa Cae Bach. Mae yn trefnu cais ffurfiol i edrych ar wellianau darpariaeth parcio Bro Eryl. Paswyd i beidio wneud cais am cysgodfa yn Heol Pensarn ac i adael i Mr Morgan wybod.

895. Cadarnhau Cofnodion 4ydd o Hydref 2012.

Darllenwyd a cafwyd y cofnodion yn gywir.

896. Materion yn codi o'r cofnodion:

Darpariaeth Henoed – Gofal Dydd Cysgod y Coleg – wedi derbyn copi o lythr sydd wedi eu anfon at aelodau a theuluoedd yn ateb eu pryderon.

Gofal Ysbaid – Gofynwyd i Cymdeithas Tai Clwyd os oedd uned gofal ysbaid yn Awel y Coleg, cadarnhawyd bod treial am flwyddyn i weld y defnydd, gweithwyr cymdeithasol a'r nyrsys cymunedol fydd yn cytuno ar bwy fydd yn cael gwneud defnydd o'r uned. Gofynwyd i'r clerwr ysgrifennu at y bwrdd iechyd am ofal nyrsio lleol.

Bron y Graig – cafwyd ymateb gan Gwynedd, bod marchata wedi cychwyn er mwyn gwerthu yr adeilad, bydd unrhyw incwm yn cael eu gyfeirio yn ol i raglan gyfalaf y Cyngor er mwyn cyllido pob buddsoddiad cyfalaf boed yn adeiladau newydd neu wellianau ffyrdd ayb. O ran dodrefn/creiriau rhodedig bydd ein pryderon yn cael eu pasio at y Gwasanaeth sy'n rheoli y cartref.

Cysgodfa Bws ger y Bull – cafodd y seti yn y cysgodfa eu difrodi, trefnwyd i'w tynnu oddi yno rhag damwain. Mae yn debyg mae y Cyngor Tref sydd yn gyfrifol am cynnal a chadw ac nid oedd y cyngorwyr am trwsio y seti. Y clerwr i edrych fewn i costau glanhau y cysgodfa.

Nadolig – Gwynedd yn trefnu bod y goleuadau ar y coed heno i ni weld os ydynt yn gweithio. Y clerwr i cadarnhau ac iddynt cael eu troi ymlaen penwythos cyn y siopa hwyr. Archeb y coed wedi eu rhoi gyda cais iddynt cael eu dosbarthu tua wythnos cyn y noson siopa hwyr. Y pwyllgor siopau wedi gofyn am help gyda rhai materion noson siopa hwyr. Angen son wrthynt i rhoi unrhyw wahoddiadau i'r Maer, trwy y clerwr, roedd camddialltwriaeth ylllynedd.

Gwaith ar lan Llyn Tegid – cafwyd ymateb gan yr Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae gwaith cynnal a chadw wedi bod yn mynd ymlaen, glanhau y cerrig oedd wedi cael eu gorchuddio a llanast o'r llyf diwethaf. Bydd rhai coed yn cael eu torri lawr os ydynt yn gwyro fewn am y llwybr neu ddim yn saff.

Arwyddwyd.....Maer

ArwyddwydClerwr

Heol y Castell -Cafwyd cadarnhad wnaiff y Cyngor edrych ar osod twmpathau arafu yn Heol y Castell ond nid oes cyllideb ar hyn o bryd iddynt.

897. Materion yr Heddlu:

Darllenwyd ebost gan y swyddog cefnogi gan nad oedd yn bosibl bod yn bresenol. Adroddodd bod heddlu yn gwneud eu hymoliadau ynglun digwyddiadau lleol. Mae swyddogion traffic wedi bod yma yn edrych ar y sefyllfa gyrru gwrth gymdeithasol. Cafwyd cadarnhad bydd heddwys yn dod yn ol i'r dref yn barhaus yn fuan iawn.

898. Materion Cynllunio: Derbynwyd cadarnhad gan y Parc bod caniadat Rhestredig i godi feranda rhannol gauedig, rhannol agored i gefn yr eiddo, a chysgodfan ar y talcen de orllewinol, newidaidau i adeilad cwrtil ym Plas Deon 35 Heol Tegid, ac hefyd cyniadat i godi feranda penty rhannol gauedig yn Plas Deon, 35 Heol Tegid.

899. Materion Cyllid:

Cymeradwyd i dalu yr anfonebau canlynol, Anfoneb Cyngor Gwynedd –costau Etholiad leol, Anfoneb Vodafone, trosgwlyddo arian i'r Partneriaeth Penllyn daeth i cyfrif Cyngor Tref, Rhestr asedau rhaid ychwanegu cysgodfa bws y Bull arno.

900. Gohebiaeth:

Cyngor Gwynedd – Cynllun Bywiocau a Gwella Delwedd Canol Trefi ac gwybodaeth am yr Gorchmynion Rheoli Cwn Cyhoeddus.

Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd - newyddlen paratoi at gaeaf

Prosiect Ceidwad Chwarae - pasio ymlaen I pwyllgor Cae Chwarae Heol y Castell

Proludic – catalog offer chwarae

Bodant Joinery – manylion gweithiwr saer

Ceisiadau ariannol gan Cymdeithas y Byddar, Eisteddfod Llangollen, a Elusen Gisda rhoi i un ochri edrych arnynt yn Chwefror

901. Materion Brys

Sul y Cofio – angen glanhau y gofeb yn barod. Y gwasaneth cyhoeddus yn Capel yr Annibynwyr ar Sul 11 o Dachwedd am 10 ac yna ger y gofeb am 11.00yb

Y clerch i ddwyn sylw at cyflwr y palmant o flaen Somerfield i Wynedd.

Tynwyd sylw at gwelliannau i ffensys tai y dref, sgwenu i ddiolch i Cartrefi Cymunedol

Gwynedd am trefnu gwneud gwlliannau.

Before the meeting the councillors were invited to look around the new facility at Awel y Coleg which will soon have tenants moving in. The Gwynedd Councillor has been busy on our behalf and informs us that Traffic wardens will be patrolling regularly during the day and also at night. The parking at Bro Eryl is being looked into. It is hoped to have speed humps near school in Castle street when the budget is available. The pavement in front of Somerfield is uneven. There will not be a bus shelter on Pensarn Road. The shelter near the Bull was vandalised and the seats will not be put back. The Police support officer informs us that a PC will soon be based back in town.

Arwyddwyd.....Maer

ArwyddwydClerc